

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Alltwn, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 01 a 02 Mai
2019

Dyddiad cyhoeddi: 1 Awst 2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	28
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	29
	Atodiad A – Crynodeb o'n pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	30
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	31
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	32

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Alltwn sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 01 a 02 Mai 2019. Ymwelwyd â'r ward ganlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Morfa

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr AGIC, yr oedd un ohonynt yn gweithredu fel arolygwr lleyg, ac un adolygwr sy'n gymheiriad clinigol. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom beth tystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a rhyngweithio da rhwng y staff a'r cleifion
- Cynnal asesiadau risg, archwilio ac adrodd
- Glendid amgylchedd y ward
- Ansawdd y bwyd
- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Cymorth, goruchwyliaeth a hyfforddiant i'r staff
- Cadw cofnodion
- Trosolwg gan y rheolwyr

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodi asesiadau galluedd meddyliol
- Lolfa ac ardal fwyta ddynodedig
- Storfa
- Pwysau'r cleifion ar siartiau Cofnod Rhoi Meddyginiaeth (MAR)
- Rhai agweddau ar reoli heintiau

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru ac mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau ysbyty iechyd meddwl sylfaenol, cymunedol ac aciwt i boblogaeth o tua 678,000 o bobl ledled chwe sir yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae gan y bwrdd iechyd oddeutu 16,500 o weithwyr.

Ceir tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, unedau iechyd meddwl a thimau cymunedol. Yn ogystal, mae'r bwrdd iechyd yn cydgysylltu gwaith 109 o ymarferwyr Meddyg Teulu a gwasanaethau'r GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng Ngogledd Cymru.

Mae Ysbyty Alltwn wedi'i leoli ar gyrion Tremadog ac fe'i hagorwyd ym mis Ebrill 2009. Ceir un ward i gleifion mewnol (Ward Morfa). Mae hon yn ward gofal i'r henoed sy'n cynnwys 18 o welyau, a darperir gwasanaethau meddygol gan ymarferwyr cyffredinol mewn practis lleol. Gellir cynyddu nifer y gwelyau i gleifion mewnol i 24 yn ystod cyfnodau prysur. Roedd 22 o gleifion yn yr ysbyty ar adeg yr ymchwiliad.

Gosodwyd lle i'r cleifion mewn pedair cilfan â phedwar gwely ym mhob un, ac wyth ciwbicl â gwely sengl. Roedd toiledau o fewn y cilfannau a chyfleusterau en-suite o fewn y ciwbiclau. Yn ogystal, roedd dwy ystafell ymolchi a oedd yn cynnwys adnoddau priodol ar gael i'r cleifion eu defnyddio. Roedd cyfleusterau ychwanegol yn cynnwys ystafell i berthnasau, ystafell drwytho a oedd yn cael ei defnyddio fel cyfleuster gofal dydd i'r cleifion hynny yr oedd angen trallwysiad gwaed neu feddyginiaeth fewnwythiennol arnynt. Roedd cypyrddau storio ac wynebau gweithio wedi'u lleoli mewn cilfachau yn y coridor.

Ymysg y gwasanaethau eraill a ddarperir yn Ysbyty Alltwn mae'r canlynol:

- Adran Cleifion Allanol
- Adran Pelydr-X
- Adran Mân Anafiadau
- Uned Ddydd Archwiliadau

- Ffisiotherapi
- Therapi Galwedigaethol
- Podiatreg (Trin Traed)
- Therapi Lleferydd ac Iaith
- Tîm Datblygiad Plant
- Tîm Iechyd Meddwl

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Mynegodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad foddhad gyda'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar.

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus.

Anogwyd y cleifion i newid o'u dillad nos i'w dillad dydd er mwyn cynnal eu hurddas a hyrwyddo'u hannibyniaeth, a chawsant gymorth i wneud hyn.

Gwelsom fod y cleifion yn gallu symud yn rhydd o gwmpas ardal y ward.

Gwelsom staff yn ymdrin â'r cleifion mewn modd digynnwrf a oedd yn tawelu'r meddwl.

Roedd amgylchedd y ward yn lân ac yn daclus.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar safon y gofal a ddarperir i gleifion yn yr ysbyty. Cwblhawyd cyfanswm o wyth holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â nifer o gleifion yn ystod yr arolygiad.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wedi bod ar y ward am wythnos neu bythefnos o leiaf. Nododd un claf:

“Teimlaf fod y ward yn dda iawn”

Roedd y cleifion o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty yn ardderchog, ac roedd yr holl gleifion yn cytuno bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth roi triniaethau a gofalu amdanynt. Roeddent yn cytuno hefyd bod y staff yn darparu gofal pan fo angen.

Cadw'n iach

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain cymaint â phosibl. Pan oedd y cleifion yn methu â gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain, oherwydd problemau gyda'r cof, gwelsom fod y staff yn ymgynghori â'r perthnasau ac yn eu hannog i wneud penderfyniadau am y gofal a ddarperir yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a chleifion, gyda'r staff yn ymdrin ag anghenion cleifion mewn modd gochelgar a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog i wneud pethau drostynt eu hunain, gan gynnal eu hannibyniaeth. Roedd y staff hefyd yn cynnwys cleifion yn y broses o wneud penderfyniadau am weithgareddau dyddiol. Mae gwirfoddolwyr yn ymweld â'r ward yn rheolaidd ac yn treulio amser gyda'r cleifion ar weithgareddau unigol.

Roedd y Cynllun Pili Pala¹ ar waith ar y ward, lle roedd symbolau pili-palod yn cael eu defnyddio er mwyn adnabod cleifion â diagnosis o ddementia neu nam gwybyddol yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt neu ddull gwahanol o ddarparu gofal. Roedd symbolau eraill hefyd yn cael eu defnyddio i adnabod y cleifion hynny yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt, megis help wrth fwyta ac yfed.

Nid oedd gan y ward lolfa nac ardal fwyta ddynodedig i'r cleifion, a dywedodd rhai o'r cleifion y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn elwa ar gael cyfleusterau o'r fath. Argymhellwn y dylid ystyried darparu cyfleusterau o'r fath yn ystod unrhyw waith adnewyddu ar y ward yn y dyfodol, er mwyn gwella ansawdd profiad y claf, annog symudedd a chynnal annibyniaeth.

¹Nod y Cynllun Pili Pala yw gwella diogelwch a llesiant cleifion drwy addysgu'r staff i ymateb i'r bobl â nam ar y cof mewn ffordd gadarnhaol a phriodol, ac mae'n galluogi'r cleifion hynny sy'n dioddef o ddementia, dryswch neu anghofrwydd i ofyn am yr ymateb hwnnw drwy ddefnyddio symbol pili pala disylw yn eu nodiadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried darparu lolf/ardal fwyt ddynodedig yn ystod unrhyw waith adnewyddu ar y ward yn y dyfodol.

Gofal ag urddas

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thosturi gan y tîm staff.

Gwelsom y staff yn ymddwyn yn garedig ac yn barchus tuag at gleifion. Gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i ddiogelu preifatrwydd ac urddas cleifion wrth roi cymorth gydag anghenion gofal personol. Cadarnhaodd y cleifion fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ofalu amdanynt.

Ymddengys bod y cleifion yn cael gofal da, gyda'r staff yn rhoi sylw penodol i ymddangosiad a dillad y bobl. Gwelsom fod y cleifion yn cael cymorth i newid o'u dillad nos yn ystod y dydd er mwyn cynnal eu hurddas, hybu eu hannibyniaeth, helpu â'u hadferiad a pharatoi ar gyfer eu rhyddhau o'r ysbyty'n ddiogel.

Roedd yr amgylchedd ar y ward yn lân ac yn daclus, gan ychwanegu at ymdeimlad y cleifion o lesiant.

Roedd yr holiaduron yn holi'r cleifion p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â nifer o ddatganiadau am staff yr ysbyty. Lle y bo'n briodol, roedd pob claf yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arno ef, ei deulu a'i ffrindiau. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff wedi cyfeirio atynt gan ddefnyddio eu henw dewisol.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth hybu iechyd ddwyieithog i gleifion a'u teuluoedd/gofalwyr yn cael ei harddangos ac roedd ar gael ar y ward.

Roedd llyfryn gwybodaeth ar gael yn nodi proffil yr ysbyty ac yn rhestru'r gwasanaethau a oedd ar gael.

Roedd Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion (PSAG)² wedi'i leoli yn yr ystafell gyfarfod amlddisgyblaethol ger gweithfan y nyrsys. Roedd y bwrdd wedi'i leoli mewn ffordd benodol er mwyn cadw gwybodaeth y cleifion yn gyfrinachol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom aelodau o staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd digynnwrf ac urddasol. Cyfeiriwyd at y cleifion gan ddefnyddio eu dewis enwau. Gwelwyd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd anogol a chynhwysol.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a oedd yn gweithio ar y ward yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Roedd hyn yn galluogi cleifion a oedd yn siarad Cymraeg a Saesneg i drafod eu hanghenion gofal a chymorth yn eu dewis iaith.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael cynnig yr opsiwn o gyfathrebu â'r staff yn eu dewis iaith.

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion wrthym yn yr holiaduron fod y staff bob amser wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol ac wedi eu helpu i'w deall.

Gofal amserol

Gwelsom fod prosesau asesu a chynllunio gofal da ar waith ar y cyfan.

Roedd tîm y ward yn gweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol er mwyn rhoi gofal unigol i gleifion yn ôl eu hanghenion wedi'u hasesu. Roedd prosesau cadarn ar waith ar gyfer cyfeirio newidiadau i anghenion cleifion at weithwyr proffesiynol eraill megis y nyrs hyfywedd meinwe arbenigol, deietegydd, a therapydd lleferydd ac iaith.

Gwelsom fod systemau cynllunio rhyddhau digonol ar waith, gyda chleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill, megis ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol, cyn gadael yr ysbyty.

² Mae bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion yn ffordd glir a chyson o arddangos gwybodaeth cleifion mewn wardiau ysbyty.

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod y cofnodion yn gynhwysfawr ar y cyfan.

Roedd y Tîm Adnoddau Cymunedol³ yn cyfarfod ar y ward unwaith yr wythnos i drafod trefniadau rhyddhau ac achosion cymhleth, er mwyn sicrhau bod cymorth digonol wedi'i drefnu ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn dychwelyd adref.

Mae rhai gweithwyr cymorth gofal iechyd yn gweithio yn y gymuned yn ogystal ag ar y ward, yn dibynnu ar ba mor brysur ydyw. Mae hyn yn galluogi'r cleifion i gael gofal yn eu cartrefi eu hunain er mwyn eu hatal rhag mynd i'r ysbyty yn ddiangen, a hefyd yn golygu y gallant gael eu rhyddhau yn gynnar.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom fod y broses cynllunio gofal yn ystyried safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal. Drwy ein sgysiau â'r staff a'n harsylwadau, cadarnhawyd gennym fod cleifion a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig yn cymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal dyddiol. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn eu helpu ac yn darparu gofal pan fo angen. Gwelsom y staff yn annog ac yn helpu cleifion i fod mor annibynnol â phosibl. Er enghraifft, gwelsom fod y staff yn annog y cleifion i gerdded ac yn eu helpu i fwyta ac yfed yn annibynnol.

Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff hefyd yn rhoi dewis iddynt ynglŷn â pha ddull y gellid ei ddefnyddio os oedd angen iddynt fynd i'r toiled, a chytunodd pob un o'r cleifion ond un fod y staff yn eu helpu â'u hanghenion toiled yn ôl yr angen, a hynny mewn ffordd sensitif fel nad oeddent yn teimlo cywilydd.

³ Mae'r Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC) yn wasanaeth ar y cyd a ddarperir gan y bwrdd iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r TAC yn rhoi help i'r bobl sydd angen cymorth i gadw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r TAC yn sicrhau bod cleifion yn cael y gweithiwr proffesiynol cywir yn rhoi'r ymyriad cywir, ar yr adeg gywir. Mae'n symleiddio'r broses drwy gydgyssylltu anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod cloch alw ar gael iddynt, a chytunodd y cleifion fod y staff yn dod atynt pan oeddent yn defnyddio'r gloch alw.

Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn rhoi gofal mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo ac yn diogelu hawliau cleifion.

Gwelsom y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth ofalu amdanynt. Er enghraifft, roedd llenni yn cael eu defnyddio o amgylch ardaloedd gwely unigol ac roedd drysau i ystafelloedd sengl yn cael eu cau pan oedd gofal yn cael ei roi.

Gwelsom fod asesiadau o Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)⁴ yn cael eu cynnal yn ôl yr angen. Fodd bynnag, gwelsom fod cofnodion yr asesiadau o alluedd meddyliol yn anghyson.

Gwelsom fod y ffurflenni Peidiwch â Dadebru (DNAR)⁵ wedi cael eu cwblhau'n briodol lle bo angen.

Yr hyn sydd angen ei wella

Adolygu'r broses o gofnodi asesiadau o alluedd meddyliol a mynd i'r afael â'r materion cysylltiedig.

Gwranddo a dysgu o adborth

⁴ Mae trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid (DoLS) yn rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n fodd cyfreithlon i amddifadu rhywun o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er ei fudd pennaf ac os mai hon yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r person yn ddiogel rhag niwed.

⁵ Caiff asesiadau Peidiwch â Dadebru eu cynnal gan feddyg, ac mae'n dweud wrth y tîm meddygol i beidio â cheisio dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Mae'r ffurflen asesu wedi'i llunio i'w hadnabod a'i dilysu yn hawdd, gan alluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i wneud penderfyniadau cyflym am sut i drin claf.

Cafodd cleifion a'u cynrychiolwyr gyfleoedd i roi adborth ar eu profiad o'r gwasanaethau a ddarparwyd, drwy drafodaethau wyneb yn wyneb â'r staff.

Roedd systemau da ar waith i reoli cwynion a dywedodd y staff wrthym fod nifer y cwynion a ddaeth i law am y gwasanaeth yn isel.

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith a oedd yn cydymffurfio â Gweithio i Wella⁶. Roedd gwybodaeth ar gael ar ffurf posteri a thaflenni a oedd yn cynghori cleifion a/neu berthnasau ynglŷn â sut i wneud cwyn.

⁶ Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd gennym fod y tîm o staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu, ac atal cleifion rhag syrthio.

Roedd y ward yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaethau ffurfiol ar waith.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff ac roedd y staff yn monitro'r cleifion er mwyn hyrwyddo eu llesiant a'u diogelwch.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Gwelsom fod y ward yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda a bod systemau ar waith i roi gwybod am beryglon amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt a'u hunioni.

Roedd archwiliadau cyffredinol, archwiliadau clinigol mwy penodol ac asesiadau risg yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i gleifion a staff.

Ar y cyfan, roedd y ward yn glir rhag unrhyw beryglon i ddiogelwch cleifion, ymwelwyr a staff. Fodd bynnag, nodwyd bod ambell i ddarn o gyfarpar, megis teclynau codi a chadeiriau mesur pwysau, yn cael eu storio yn y coridor ar adegau, a allai beri risg o faglu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Adolygu'r trefniadau storio er mwyn dileu'r risg o anafu cleifion, staff ac ymwelwyr.

Atal briwiau pwysu a niwed i feinweoedd

Roedd y staff yn asesu cleifion mewn perthynas â'u risg o ddatblygu niwed i'w croen oherwydd briwiau pwysu. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y staff yn cymryd camau priodol er mwyn atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu a niwed i feinweoedd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal a chadarnhau bod asesiadau risg ysgrifenedig wedi cael eu cwblhau gan ddefnyddio adnodd asesu nyrsio cydnabyddedig. Gwelsom hefyd fod y cofnodion monitro wedi cael eu cwblhau, gan ddangos bod y staff yn chwilio am arwyddion o friwiau pwysau ar groen y cleifion yn rheolaidd. Roedd offer lleddfu pwysau addas ar gael ac yn cael eu defnyddio er mwyn helpu i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysau.

Roedd y cofnodion monitro a welsom yn dangos bod y cleifion wedi cael cymorth neu wedi cael eu hannog i symud safle tra eu bod yn y gwely neu mewn cadair freichiau yn rheolaidd. Gwelsom hefyd y staff yn helpu ac yn annog y cleifion i symud o gwmpas amgylchedd y ward. Mae'r ymyriadau nyrsio hyn yn bethau sy'n helpu i leihau risg y cleifion o ddatblygu briwiau pwysu.

Atal cwympiadau

O archwilio sampl o ffeiliau gofal unigol, gwelsom fod asesiadau'n cael eu cynnal er mwyn lleihau'r risg o gwmpo ac roedd camau cyflym yn cael eu cymryd mewn ymateb i hynny.

Atal a rheoli heintiau

Roedd polisi rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith a gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau bod y staff yn cadw at y polisi ac egwyddorion arfer da.

Roedd canlyniadau archwiliad rheoli heintiau yn cael eu harddangos ar hysbysfwrdd ar y ward.

Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff, megis menig a ffedogau untro i leihau croes-heintio, ac roeddent yn cael eu defnyddio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod mannau diheintio'r dwylo wedi

eu lleoli'n strategol wrth ymyl mynedfeydd/allanfeydd at ddefnydd y staff ac ymwelwyr, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd gan reolwr y ward fesurau penodol ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt o ran achosion o ddiffyg cydymffurfio ymhlith y staff mewn perthynas â'r weithdrefn golchi dwylo. Arweiniodd hyn at rywfaint o welliant. Fodd bynnag, yn ystod yr arolygiad, nodwyd gennym nad oedd pob aelod o'r staff yn dilyn y polisi na'r weithdrefn golchi dwylo. Mae angen monitro'r agwedd hon ar y gwasanaeth ymhellach.

Heb ethriad, roedd pob claf a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y ward yn lân ac yn daclus.

Yr hyn sydd angen ei wella

Parhau i fonitro cydymffurfiaeth y staff â'r polisi golchi dwylo.

Maeth a hydradu

Gwelsom anghenion bwyta ac yfed cleifion yn cael eu hasesu. Gwelsom hefyd y staff yn helpu cleifion i fwyta ac yfed mewn modd urddasol a digynnwrf.

Roedd hylifau ar gael i'r cleifion, gyda jygiau dŵr wrth erchwyn y gwely.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion gofal, a gwelsom fod siartiau monitro bob amser yn cael eu defnyddio lle'r oedd angen gwneud hynny, er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael hylifau a maeth a oedd yn briodol at eu hanghenion.

Roedd y ward yn hyrwyddo adegau bwyd a ddiogelir. Roedd hyn yn sicrhau na tharfwyd ar y cleifion yn ddiangen yn ystod prydau bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael digon o faeth a hylif. Fodd bynnag, anogwyd perthnasau i ymweld adeg prydau bwyd er mwyn helpu a chefnogi'r cleifion i fwyta, lle y bo'n briodol.

Gwelsom y prydau amser cinio'n cael eu gweini a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion mewn ffordd ddigynnwrf, bwylllog ac urddasol gan roi digon o amser iddynt gnoi a llyncu eu bwyd. Hefyd, gwelsom y staff yn annog y cleifion a'u helpu i fwyta'n annibynnol. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn cael digon o amser i fwyta'u bwyd ar eu cyflymder eu hunan a bod dŵr ar gael bob amser.

Roedd y prydau bwyd wedi'u cyflwyno'n dda yn ôl y golwg ac yn ymddangos yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

Gwelwyd bod y staff yn rhoi'r cyfle i gleifion olchi eu dwylo ar ôl bwyta eu pryd o fwyd. Fodd bynnag, nid oedd y cleifion yn cael y cyfle i olchi eu dwylo cyn bwyta. Dylid annog hyn er mwyn hyrwyddo hyllendid a lleihau achosion o groesheintio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhoi cyfle i gleifion olchi eu dwylo cyn bwyta.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom feddyginiaeth yn cael ei rhoi i gleifion ac roedd y broses yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd. Gwelsom y staff yn mynd ati i roi meddyginiaeth mewn ffordd ddifrys, gan gymryd yr amser i sicrhau bod cleifion yn gallu cymryd eu meddyginiaeth heb bryderu na mynd yn ofidus.

Er cyflawnder, gwnaethom argymhell y dylid rhoi pwysau'r claf ar y siart rhoi meddyginiaeth. Fodd bynnag, nodwyd bod pwysau'r cleifion yn cael eu nodi ar ffeiliau gofal unigol.

Daeth fferylllydd i'r ward unwaith yr wythnos i gynnal archwiliadau meddyginiaeth, ac i roi cyfarwyddyd a chymorth i'r staff.

Nid oedd unrhyw gleifion a oedd yn cael gofal ar adeg yr arolygiad yn rhoi meddyginiaeth i'w hunain. Dylid asesu cleifion yn ôl eu gallu i gymryd cyfrifoldeb am eu meddyginiaeth eu hunain. Byddai hyn yn annog annibyniaeth ac yn cynnal a gwella sgiliau cyn cael eu rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty.

Gwelsom nad oedd y staff bob amser yn cloi drws yr ystafell storio meddyginiaethau wrth adael, er bod posteri ger y drws er mwyn atgoffa'r staff i wneud hynny. Tynnwyd sylw rheolwr y ward at hyn, a chymerodd gamau gweithredu uniongyrchol i atgoffa'r staff fod angen iddynt gloi'r ystafell storio meddyginiaethau wrth adael. Yn dilyn hynny, aethom i'r ystafell storio meddyginiaethau nifer o weithiau yn ystod yr arolygiad a gwelsom fod y drws ar glo. Dywedwyd wrthym fod bwriad i osod clo bysellbad ar ddrws yr ystafell storio meddyginiaethau.

Gwelsom fod cynnwys y trolïau trawiad ar y galon yn cael eu harchwilio'n rheolaidd a bod unrhyw eitemau sydd wedi mynd heibio'u dyddiadau dod i ben yn cael eu newid.

Yr hyn sydd angen ei wella

Cofnodi pwysau'r cleifion ar siartiau rhoi meddyginiaeth.

Parhau i fonitro a sicrhau bod y staff yn cloi drws yr ystafell storio meddyginiaethau wrth adael.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisïau a gweithdrefnau diogelu ysgrifenedig ar waith ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant priodol ar y pwnc hwn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol ar y ward ar adeg yr arolygiad.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Roedd amrywiaeth o offer meddygol ar gael ar y ward ac roedd yr offer yn cael eu cynnal a chadw'n briodol ac roedd cyfarpar cludadwy yn cael eu profi yn ôl y gofyn.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelwyd tystiolaeth o weithio amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol. Roedd meddygon teulu yn ymweld â'r ward ddwywaith yr wythnos, ac roeddent yn ymweld â'r ward bob diwrnod arall yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym fod mynediad da at wasanaethau meddyg teulu yn ystod y nos ac ar y penwythnos, gan fod gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau ar gael yn yr ysbyty.

Gwelsom fod y ddogfennaeth Asesu Nyrsio Oedolion wedi'i chwblhau'n llawn ar adeg derbyn pob claf. Roedd asesiadau o boen yn cael eu cynnal yn ôl yr angen hefyd.

Gwelsom fod bwndeli gofal, sy'n gysylltiedig â'r system genedlaethol Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol (NEWS)⁷, yn cael eu defnyddio fel ffordd strwythuredig o wella prosesau gofal a chanlyniadau i gleifion o ran atal briwiau pwyso, sicrhau maeth digonol a nodi cleifion sy'n wynebu risg o waethygu drwy salwch aciwt neu sepsis.

Gwelsom fod prosesau a systemau gofal da ar waith ar y cyfan. Gwelsom fod y broses cynllunio gofal yn ystyried safbwyntiau cleifion ynglŷn â'r ffordd roeddent am gael gofal.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chynnal cyfrinachedd.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddiant, cadarnhawyd gennym fod yr holl aelodau o staff perthnasol wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Dywedwyd wrthym fod gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig i'w defnyddio ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Cadw cofnodion

Roedd nodiadau gofal y cleifion wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn gyffredinol. At ei gilydd, roedd y ffeiliau gofal yn drefnus ac yn hawdd eu deall.

⁷ System genedlaethol i nodi cleifion sâl iawn sy'n gwaethygu ac sydd angen gofal meddygol neu ofal nyrsio mwy dwys yw NEWS.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom drefniadau rheoli ac arwain da iawn yn ward, gyda'r staff yn sôn yn gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan reolwr y ward.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn ymwybodol o'r uwch strwythur rheoli yn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau da, anffurfiol i oruchwyllo a chefnogi'r staff o ddydd i ddydd ar waith ar y ward, a bod cyfarfodydd staff ffurfiol a gofnodir yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom fod cyfathrebu mewnol da rhwng y tîm amlddisgyblaethol. Cynhelir cyfarfod sgrym dros y ffôn bob bore sy'n cynnwys rheolwyr o ysbytai cymuned a thimau nyrsio cymunedol eraill ardal orllewinol y bwrdd iechyd. Mae hyn yn galluogi'r tîm rheoli i gael trosolwg o'r hyn sy'n digwydd ym mhob un o'r gwasanaethau a threfnu adnoddau er mwyn ateb y galw amrywiol.

Mae'r dirprwy bennaeth nyrsio wedi'i lleoli ar y ward. Mae hyn yn ei galluogi i gael trosolwg o'r gwasanaeth a ddarperir bob dydd ac yn golygu ei bod yn amlwg ac ar gael i'r staff, y cleifion a'r ymwelwyr.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Gwelsom fod tîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol ar y ward, a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn gyfarwydd ag anghenion gofal y cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Gwelwyd copïau o rota'r staff a ddangosodd i ni fod cymysgedd sgiliau da ymhlith y staff ar ddyletswydd ar bob sifft. Gallai nifer y staff ar ddyletswydd amrywio o un sifft i'r llall, roedd yn ystyried lefelau'r defnydd welyau a'r cleifion hynny yr oedd angen cymorth neu oruchwyliaeth unigol arnynt.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom ddosbarthu holiaduron AGIC i'r staff a oedd yn gweithio ar y ward er mwyn cael gwybod am yr amodau gwaith, ac i gasglu eu barn ar ansawdd y gofal a ddarperir i gleifion.

Derbyniwyd cyfanswm o 14 o holiaduron wedi'u cwblhau gan staff a oedd yn cyflawni amrywiaeth o rolau yn yr ysbyty. Roedd y staff a gwblhaodd yr holiaduron wedi gweithio yn yr ysbyty am gyfnodau amrywiol, o ychydig fisoedd i dros 10 mlynedd.

Yn yr holiaduron, dywedodd pob aelod o'r staff eu bod wedi ymgymryd ag amrywiaeth eang o hyfforddiant, neu ddysgu a datblygu, mewn meysydd fel iechyd a diogelwch, ac ym mhreifatrwydd ac urddas pobl hŷn tra eu bod yn yr ysbyty yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur yn dweud bod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu y maent yn ei gwblhau yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y gofynion proffesiynol, ac yn sicrhau eu bod yn darparu profiad gwell i gleifion ac yn eu helpu i wneud eu swyddi yn fwy effeithiol.

Gwnaethom archwilio sampl o ffeiliau'r staff a chadarnhau bod hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol arall ar gael i'r staff. Roedd ffigurau a gyflwynwyd i ni yn ystod yr arolygiad yn dangos bod 88.45% o staff y ward wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol. Gwelsom dystiolaeth mewn ffeiliau unigol o'r staff yn cael eu hatgoffa'n ffurfiol bod angen iddynt gwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol.

Dywedodd pob aelod o'r staff ond dau a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygu o'u gwaith yn ystod y flwyddyn diwethaf. Lle y nodwyd anghenion hyfforddiant, dysgu neu ddatblygu mewn cyfarfodydd a gynhaliwyd, dywedodd pob aelod o'r staff ond un a gwblhaodd holiadur wrthym fod eu rheolwr bob amser yn eu cefnogi i gyflawni'r anghenion hyn.

Gwnaethom ofyn am wybodaeth mewn perthynas ag arfarniadau perfformiad a chadarnhawyd bod 97.14% o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf.

Yn yr holiaduron, rhoddwyd nifer o ddatganiadau i'r staff yn ymwneud â gofal cleifion a gofynnwyd iddynt pa mor aml roeddent yn berthnasol yn eu profiad nhw. Roedd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur yn gytûn bod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu diogelu yn yr adran, bod annibyniaeth y cleifion yn cael ei hyrwyddo, a bod cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

Yn yr holiaduron, nododd y staff nad ydynt bob amser yn gallu ateb yr holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith, ac roedd hanner y staff o'r farn mai dim ond 'weithiau' y mae digon o staff yn y sefydliad er mwyn eu galluogi i wneud eu gwaith yn iawn. Ymhlith y sylwadau gan y staff yn yr holiaduron, roedd y canlynol:

“Lle ardderchog i weithio”

“Yn ystod fy lleoliad gwaith yn Alltwen, rwyf wedi gweld bod y cleifion yn cael gofal gwych yma. Mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar ac yn gweithio'n galed, ac mae pob un ohonynt yn gweithio'n dda fel tîm i sicrhau bod eu cleifion yn cael y gofal gorau posibl”

Gwnaethom archwilio rotas y staff a gwelsom fod dwy nyrs gofrestredig a thri chynorthwydd gofal iechyd ar ddyletswydd yn ystod oriau'r dydd fel arfer. Roedd y ffigur hwn yn amrywio yn dibynnu ar nifer y cleifion a oedd yn aros yno a'r lefelau dibyniaeth. Dywedwyd wrthym y byddai aelodau o staff o'r uned mân anafiadau a chynorthwywyr gofal iechyd yn y gymuned yn rhoi help llaw ar y ward pan nad oeddent yn brysur.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff wrthym fod ganddynt ddeunyddiau, cyflenwad a chyfarpar digonol 'bob amser' i wneud eu gwaith. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm neu eu hadran, ac maent yn aml yn rhan o'r gwaith o benderfynu ar newidiadau a gyflwynir sy'n effeithio ar eu maes gwaith, tîm neu adran.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn fodlon ar ansawdd y gofal y gallant ei roi i'r cleifion.

Gofynnwyd i'r staff yn yr holiaduron sgorio pa mor aml yr oedd nifer o ddatganiadau yn ymwneud â'u sefydliad yn berthnasol yn eu profiad nhw. Teimlai'r rhan fwyaf o'r staff a atebodd y cwestiynau hyn fod y sefydliad yn gefnogol, a bod y gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n ymdrin â'r cleifion yn cael eu grymuso i ddweud a gweithredu pan fydd materion yn codi, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.

Roedd y staff a gwblhaodd y gyfres hon o gwestiynau yn yr holiadur o'r farn bod y wybodaeth gywir yn aml ar gael i'r bwrdd iechyd er mwyn monitro ansawdd y gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol bob amser a gweithredu'n gyflym lle bo diffygion, a dywedodd fod diwylliant o fod yn agored a dysgu gyda'r bwrdd iechyd yn gyffredinol, sy'n cefnogi'r staff i nodi problemau a'u datrys.

Roedd y mwyafrif o'r staff a gwblhaodd yr holiadur o'r farn bod y sefydliad yn annog gwaith tîm bob amser.

Cytunodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd yr holiadur mai gofalu am y cleifion yw prif flaenoriaeth y sefydliad, a bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn argymhell y sefydliad fel lle i weithio ac y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad pe byddai angen triniaeth ar ffrind neu berthynas.

Dywedodd pob aelod o'r staff ond un a gwblhaodd holiadur wrthym fod adborth ar brofiad y claf (e.e. arolygon cleifion) yn cael eu casglu o fewn eu cyfarwyddiaeth neu adran. Dywedodd yr aelodau hynny o staff a oedd yn gwybod bod adborth ar brofiad cleifion yn cael ei gasglu wrthym eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar yr adborth ar brofiad cleifion, a'u bod o'r farn bod yr adborth hwnnw'n cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu cyfarwyddiaeth neu adran.

Gofynnwyd cwestiynau i'r staff yn yr holiadur am eu rheolwr uniongyrchol, ac roedd yr adborth yn gadarnhaol. Gwnaeth aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

"Mae'r rheolwr wedi bod yn gefnogol wrth i mi symud o fod yn fyfyrwr i fod yn nyrs gymwys. Mae'n hawdd mynd ato bob amser i ofyn am gyngor neu arweiniad"

"Mae'r rheolwr yn wych a bob amser yn barod ei gymwynas"

Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr yn annog y rhai sy'n gweithio iddynt i weithio fel tîm, a bod eu rheolwr bob amser yn gefnogol mewn argyfwng personol.

Yn ogystal, roedd y staff o'r farn bod eu rheolwyr yn rhoi adborth clir ar eu gwaith ac yn gofyn eu barn cyn i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n effeithio ar eu gwaith, lle y bo'n briodol, ac y gellir dibynnu arnynt bob amser i'w helpu gyda thasg anodd yn y gwaith.

Lle bo'n briodol, dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad. Roedd ychydig yn llai na thraean o aelodau o'r staff a gwblhaodd holiadur o'r farn nad oedd yr uwch-reolwyr yn ymrwymedig i ofalu am gleifion, ar y cyfan. Dywedodd pob aelod o'r staff ond un wrthym hefyd fod cyfathrebu effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff ar y cyfan, a bod yr uwch reolwyr yn cynnwys y staff mewn

penderfyniadau pwysig yn rheolaidd, ac yn gweithredu ar adborth gan staff; gwnaeth un aelod o'r staff y sylw canlynol:

"Mae fy Metron a'm Rheolwr yn gefnogol iawn ac mae'n hawdd mynd atynt bob amser"

Dywedodd 10 allan o'r 14 aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cael gwybodaeth am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2015.

Nid oedd y mwyafrif o'r staff yn cytuno nac yn anghytuno pan ofynnwyd yn yr holiaduron p'un a oedd eu swyddi, yn gyffredinol, yn llesol i'w hiechyd.

Roedd y staff yn cytuno bod eu rheolwr llinell uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant, a bod eu sefydliad yn cymryd camau cadarnhaol o ran iechyd a llesiant.

Dywedodd dros dri chwarter y staff wrthym yn yr holiaduron eu bod wedi gweld camgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf a allai fod wedi niweidio'r staff neu'r cleifion.

Roedd yr aelodau o'r staff a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, ac o'r farn y byddai'r sefydliad yn cymryd camau i sicrhau nad ydynt yn digwydd eto, ar ôl cael gwybod amdanynt. Roedd pob aelod o'r staff a atebodd y cwestiwn penodol hwn yn yr holiadur yn cytuno bod y sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â chamgymeriad, camgymeriad a fu bron â digwydd neu ddigwyddiad yn deg.

Roedd y staff o'r farn y byddai'r sefydliad yn ymdrin ag unrhyw gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt yn gyfrinachol ac na fyddai'r sefydliad yn gweld bai ar y bobl hynny sy'n gysylltiedig â digwyddiadau o'r fath nac yn eu cosbi.

Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym yn yr holiaduron eu bod yn cael gwybod am gamgymeriadau, camgymeriadau a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau yn y sefydliad, ac yn cael adborth ar newidiadau a wneir mewn ymateb i ddigwyddiadau o'r fath.

Dywedodd yr holl staff a gwblhaodd holiadur, pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur wrthym hefyd y byddent yn teimlo'n ddiogel wrth godi pryderon am ymarfer clinigol anniogel, a'u bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ar ôl iddynt roi gwybod amdanynt.

Roedd pob aelod o'r staff ond un a gwblhaodd holiadur o'r farn bod eu sefydliad yn gweithredu'n deg o safbwynt datblygiad gyrfa neu ddyrchafu, ac nad oedd

unrhyw wahaniaethu ar sail cefndir ethnig, rhywedd, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd nac ar sail oedran.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r tîm rheoli fyfyrion ar rai o'r ymatebion llai ffafriol gan y staff mewn ymateb i rai o gwestiynau holiadur AGIC, fel y nodwyd yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwyd arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd y staff bob amser yn cloi drws yr ystafell storio meddyginiaethau wrth adael, er bod poster i ger y drws er mwyn atgoffa'r staff i wneud hynny.	Roedd hyn yn golygu nad oedd y cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag y risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio meddyginiaethau heb awdurdod. (Safon 2.6).	Tynnwyd sylw rheolwr y ward at hyn.	Cymerodd rheolwr y ward gamau gweithredu ar unwaith drwy atgoffa'r staff bod angen cloi drws yr ystafell storio meddyginiaethau wrth adael. Dywedwyd wrthym fod bwriad i osod clo bysellbad ar ddrws yr ystafell storio meddyginiaethau.

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Ysbyty: Ysbyty Alltwen

Ward/adran: Morfa

Dyddiad arolygu: 01 a 02 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella ar unwaith	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd roedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Alltwen

Ward/adran: Morfa

Dyddiad arolygu: 01 a 02 Mai 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid ystyried darparu llofa/ardal fwyta ddynodedig yn ystod unrhyw waith adnewyddu ar y ward yn y dyfodol.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Dylid defnyddio'r ardalodd tawel a'r ardal gymdeithasol fach ger gweithfan y nyrsys yn y cyfamser ac ystyried darpar ardal fwy priodol wrth adnewyddu'r ward yn y dyfodol.	Metron Rhona Jones	Bydd hyn yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad adnewyddu nesaf
Adolygu'r broses a mynd i'r afael â materion yn ymwneud â chofnodi asesiadau o alluedd meddyliol.	6.2 Hawliau pobl	Dylid ychwanegu adran gyfeirio at y ffolder cardex nyrsio er mwyn sicrhau bod unrhyw atgyfeiriadau o ran galluedd meddyliol wedi eu nodi'n glir. Bydd cofnod o statws galluedd meddyliol pob claf, a dylid ffeilio'r holl asesiadau yn y	Rheolwr y Ward Emma Owen	Bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019, ac yn

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		system cardex nyrsio.		destun archwilio parhaus gan Reolwr y Ward
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Adolygu'r trefniadau storio er mwyn dileu'r risg o anafu cleifion, staff ac ymwelwyr.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Ni ddylid cadw unrhyw gyfarpar yn y coridorau, a dylid cadw'r holl gyfarpar nas defnyddir i ffwrdd o'r ward. Dylid cadw cyfarpar a ddefnyddir bob dydd mewn ardal benodol/ardaloedd penodol i ffwrdd o'r coridor.	Rheolwr y Ward Emma Owen	Wedi'i gwblhau ac yn mynd rhagddo fel rhan o'r gwaith a drefnir ar y ward. I'w fonitro
Parhau i fonitro cydymffurfiaeth y staff â'r polisi golchi dwylo.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Parhau i gynnal archwiliadau hylendid dwylo bob wythnos. Herio'r staff ynglŷn â chyfleoedd a gollwyd. Yn dilyn ymchwiliad archwilio AGIC, cynhaliodd y tîm rheoli heintiau ymweliad dirybudd â'r ward a chafwyd cydymffurfiaeth o 100%.	Rheolwr y Ward Emma Owen	Cwblhawyd a chynhelir asesiadau parhaus gyda'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhoi cyfle i gleifion olchi eu dwylo cyn bwyta.	2.5 Maeth a Hydradu	Darperir weips dwylo sydd wedi'u lapio'n unigol ar hambyrddau prydau bwyd y cleifion erbyn hyn, ac anogir y cleifion i'w defnyddio.	Rheolwr y Ward Emma Owen	Cwblhawyd ac yn destun hap-wiriadau archwilio gan Reolwr y Ward
Cofnodi pwysau'r cleifion ar siartiau rhoi meddyginiaeth.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Caiff y staff eu hannog i gofnodi pwysau ar siartiau meddyginiaeth, a dylai staff y fferyllfa fonitro hyn yn ogystal â Rheolwr y Ward.	Rheolwr y Ward Emma Owen	Cwblhawyd ac yn destun archwiliadau misol
Parhau i fonitro a sicrhau bod y staff yn cloi drws yr ystafell storio meddyginiaethau wrth adael.		Yn aros am ddyddiad ar gyfer gosod system mynediad â cherdyn allwedd. Wedi sicrhau cyllid. Caiff mynediad i'r ystafell feddyginiaeth ei fonitro fel rhan o ymweliadau crwydro misol gan uwch-aelodau o'r staff.	Matron Rhona Jones	Diwedd mis Gorffennaf 2019
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Myfyrio ar rai o'r ymatebion llai ffafriol gan y staff mewn ymateb i rai o'r cwestiynau yn adroddiad AGIC, fel y nodwyd yn yr adran Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth yn yr adroddiad	7.1 Y Gweithlu	Mewn perthynas â chamgymeriadau a fu bron â digwydd a chamgymeriadau/digwyddiadau, byddwn yn tynnu sylw at/canolbwyntio	Tîm y gweithlu, Rheolwr y Ward Emma Owen a'r Metron Rhona	Diwedd mis Medi 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
hwn, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r materion a amlygwyd.		ar ddigwyddiadau cleifion gyda'r staff yn ystod cyfarfodydd sgrym rheolaidd dros y ffôn. O ran lefelau staffio a phwysau gwaith, byddwn yn sicrhau bod cynllun uwchgyfeirio clir ar waith i gefnogi'r staff. O ran yr adborth a gafwyd o'r holiaduron a gwblhawyd gan y staff mewn perthynas â'r staff yn cael eu trin yn gyfartal ac yn deg, bydd adroddiad AGIC yn cael ei rannu â thîm y gweithlu am ragor o gyngor ac arweiniad.	Jones	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Rhona Wyn Jones

Swydd: Metron Ardal

Dyddiad: 18/6/2019